ATODLEN 7

Gwaharddiadau ar draddodi deunydd perthnasol i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd heb basbort planhigion

# RHAN B

## Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ond gan basbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer y parth gwarchod hwnnw

**20.** Planhigion *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L. neu *Pseudotsuga* Carr.

**21.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**22.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Castanea* Mill., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Eucalyptus* L'Hérit, *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha Roem*., *Pyrus* L., *Sorbus* L. neu *Vitis* L.

**23.** Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

**24.** Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

**25.** Cloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**26.** Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

**27.** Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

**28.** Hadau Beta vulgaris L., Castanea Mill., Dolichos Jacq., Gossypium spp. neu Phaseolus vulgaris L.

**29.** Ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu neu ffrwythau *Vitis* L.

**30.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium* oleander L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.